


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 313A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn ymateb yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy lywio gwelliannau i'w wasanaethau addysg a'i wasanaethau cymdeithasol, ond mae'n wynebu her sylweddol i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu gwastraff 7

Mae prosesau craffu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella er bod lle i werthuso'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella yn well 13

Erys trefniadau cynllunio ariannol strategol y Cyngor yn gadarn ond mae angen gwella'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion ynghylch graddau uchelgeisiau gwella'r Cyngor ac effaith newidiadau i wasanaethau yn ei feysydd â blaenoriaeth 15

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 21

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 22

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 24

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 26

# Adroddiad cryno ac argymhellion

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-14, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-2014 a, chan ystyried y rhain, cofnoda gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Gwnaethom nodi bod y Cyngor, yn 2012-13, wedi ymateb yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy lywio gwelliannau i'w wasanaethau addysg a'i wasanaethau cymdeithasol, ond mae'n dal i wynebu her sylweddol i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu gwastraff. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau i'w wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc;
- mae'r Cyngor yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'w ddinasyddion agored i niwed ond mae angen gwneud mwy o waith i feithrin capasiti proffesiynol a gwella amseroldeb asesiadau o fewn gwasanaethau plant;
- mae perfformiad ym maes ailgylchu yn gwella ond mae angen cyflymu'r cynnydd a wneir yn sylweddol fel bod y Cyngor yn cyflawni targedau cenedlaethol; ac
- mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod yr angen am ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei ystyried yn briodol ar y cam cynllunio gwasanaethau.

3 Gwnaethom hefyd nodi bod prosesau craffu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella er bod lle i werthuso'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella yn well.  Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae Adroddiad Cyflawni Blynyddol y Cyngor yn darparu asesiad teg a chytbwys o berfformiad er y gallai'r Cyngor wneud mwy i werthuso'r cynnydd a wneir ganddo yn erbyn ei flaenoriaethau gwella;
- mae'r Cyngor wedi achub ar gyfleoedd i ddatblygu ymhellach rôl yr aelod wrth graffu ar ei waith cynllunio gwelliant a'i berfformiad yn effeithiol, er mai megis dechrau yw'r broses o weithredu'r trefniadau newydd hyn; a
- chydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.

4 Yn olaf, gwnaethom nodi, yn ystod 2013-14, fod trefniadau cynllunio ariannol strategol y Cyngor wedi parhau'n gadarn ond bod angen gwella'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion ynghylch graddau uchelgeisiau gwella'r Cyngor ac effaith newidiadau i wasanaethau yn ei feysydd â blaenoriaeth. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- er bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol, ni chaiff ei uchelgeisiau o ran gwelliant eu cyfleu'n ddigon clir, ni all ddibynnu ar ansawdd na chywirdeb rhai o'i fesurau perfformiad ac nid yw ei gynlluniau cyhoeddus yn hwyluso ymgysylltu effeithiol â dinasyddion;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau cadarn i gyflawni effeithlonrwydd a lleihau ei gyllideb sylfaenol ond mae'n wynebu her ariannol nas gwelwyd o'r blaen yn y tymor canolig.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

6 Nid oes gennym unrhyw argymhellion newydd ar gyfer eleni ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Nodir y cynigion hynny ar gyfer gwella yn ein llythyrau asesu gwella a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hyn ar gael ar ein gwefan: www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Mae’r Cyngor yn ymateb yn dda i faterion a godwyd gan reoleiddwyr drwy lywio gwelliannau i’w wasanaethau addysg a’i wasanaethau cymdeithasol, ond mae’n wynebu her sylweddol i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu gwastraff

## Mae’r Cyngor yn gwneud gwelliannau i’w wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc

11 Yn dilyn ei arolygiad o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2012, nododd Estyn fod angen i’r Cyngor gael ei fonitro ymhellach. Lluniodd y Cyngor gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad a oedd yn cynnwys y manylder priodol a chamau cynyddrannol clir er mwyn gwella ei wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Cytunwyd ar y cynllun gweithredu hwn gan aelodau etholedig, y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, a wnaeth oll gydnabod bod angen gweithredu ar fyrder er mwyn dileu’r rhwystrau tuag at gynnydd a gwella gwaith cynllunio a rheoli perfformiad.

12 Ym mis Rhagfyr 2013, cynhaliodd Estyn ymweliad monitro er mwyn adolygu’r cynnydd a wnaed gan y Cyngor a chyhoeddodd canlyniad ei hymweliad ym mis Ionawr 2014. Crynhoir ei chanfyddiadau ym mharagraffau 13 i 17.

13 Mae’r Cyngor yn gwneud gwell defnydd o’r pwerau sydd ganddo i wella systemau arwain a rheoli yn ei ysgolion. Mae wedi datblygu dull integredig o ategu ei strategaeth gwella ysgolion, sy’n cynnwys Cytundeb Partneriaeth diwygiedig a gwell, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau rheoli perfformiad ac adnoddau dynol diwygiedig. Mae hyn yn golygu bod priod gyfrifoldebau ysgolion, yr awdurdod lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru ar gyfer gwella ysgolion, a chanlyniadau perfformiad gwael, yn gliriach.

14 Mae’r Cyngor wedi cynyddu’r defnydd o’i bwerau ymyrryd ac wedi canolbwyntio hyn ar wella perfformiad, yn hytrach na gosod sancsiynau yn unig. Mewn partneriaeth â’r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, mae’r Cyngor yn cyflawni adolygiadau rheolaidd o berfformiad ei ysgolion. Os oes tanberfformiad, mae’r Cyngor bellach yn cymryd camau mwy cadarn i herio ei ysgolion i wella. Mae’r Cyngor yn llywio ei her â sail dystiolaeth glir, sy’n arwain at gynllun cynyddrannol cytûn ar gyfer gwella a chymorth priodol wedi’i dargedu. Er enghraifft, gall y cymorth hwn gynnwys cymorth ariannol i sicrhau mentora a chymorth i’r pennaeth, rheolwyr cwricwlwm ac athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu.

15 Yn dilyn hysbysiad gan y Cyngor i wella, mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi ymateb yn dda, ac wedi dangos gwelliant clir yn erbyn eu cynlluniau gweithredu cytûn. Fodd bynnag, lle bu gwelliant cyfyngedig mae’r Cyngor, penaethiaid a chyrff llywodraethu wedi uwchgyfeirio camau ymyrryd i weithdrefnau cymhwysedd a gallu. Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn i sefydlu’r dull hwn o ddefnyddio ei bwerau i ymyrryd. Fodd bynnag, ceir ambell ysgol o hyd nad ydynt yn cefnogi hyn.

16 Mae gan y Cyngor ymagwedd strategol addas tuag at ad-drefnu ac mae wedi ymgynghori’n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol er mwyn llunio cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae cynlluniau cadarn ar waith i ddileu lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae’r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaeth

moderneiddio ysgolion gynhwysfawr sy'n cynnwys cau ysgolion, uno ysgolion a chreu ysgolion pob oedran.

17 Mae ewyllys wleidyddol glir ac ymrwymiad ariannol cryf i weithredu'r rhaglen *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*, ac mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ad-drefnu ysgolion. Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r Cyngor wedi lleihau nifer yr ysgolion cynradd â nifer sylweddol o leoedd dros ben o 68 i 42 ac mae wedi lleihau cyfanswm nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd 1,864. Mewn ysgolion uwchradd, mae lleoedd dros ben wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, disgwylir i'r penderfyniad i gau tair ysgol uwchradd ym mis Awst 2014 ac adeiladu ysgol newydd, y bwriedir iddi agor ym mis Ebrill 2015, leihau lleoedd dros ben 932. Mae'r Cyngor wedi cefnogi penaethiaid sydd ynghlwm wrth y broses ad-drefnu ysgolion yn dda, gan eu cynnwys yn effeithiol yn y broses gynllunio ac ystyried eu barn yn briodol.

18 Cynhaliodd Estyn ymweliad monitro arall ym mis Ebrill 2014 er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i wella lefelau presenoldeb disgyblion a gwella'r broses o werthuso data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau er mwyn llywio gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr. Byddwn yn cyflwyno crynodeb o'i chanfyddiadau unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi.

## Mae'r Cyngor yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'w ddinasyddion agored i niwed ond mae angen gwneud mwy o waith i feithrin capasiti proffesiynol a gwella amseroldeb asesiadau o fewn gwasanaethau plant

19 Cyhoeddodd yr AGGCC ei *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2012/2013* ym mis Hydref 2013 sydd ar gael ar ei gwefan: www.cssiw.org.uk. Nododd yr AGGCC fod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi trosolwg clir o berfformiad y Cyngor ar gyfer 2012-13. Roedd cynlluniau penaethiaid gwasanaeth yn nodi'n glir amcanion a chyflawniadau isadrannol yn ogystal â'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mewn ymateb i werthusiad y llynedd, nododd yr AGGCC fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd gan gynnwys gweithredu strategaethau comisiynu o fewn gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Mae'r agenda ataliol yn parhau i gael ei datblygu. O fewn gwasanaethau plant mae angen gwneud rhagor o waith ar amseroldeb asesiadau a materion capasiti er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Crynhoir canfyddiadau'r AGGCC ym mharagraffau 20 i 26.

20 Mae'r Cyngor yn parhau â'i raglen uchelgeisiol i foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol. Mae nifer o strategaethau ar waith sy'n helpu'r Cyngor i feithrin diwylliant o gefnogi annibyniaeth ar sail ardal mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae gan y Cyngor nifer o gydberthnasau aeddfed, yn enwedig gyda'r bwrdd iechyd lleol a phartneriaid trydydd sector sy'n gweithio'n dda.

21 Mae staff ac aelodau yn ymfalchïo’n fawr yn yr hyn a wnânt, gan ddarparu lefel uchel o wasanaethau a werthfawrogir gan bobl leol. Adlewyrchir hyn yn narpariaeth barhaus cymorth i’r gymuned oedolion ar y pedair lefel o feini prawf cymhwyso. Yr her yn y dyfodol fydd rheoli’r lefel hon o gefnogaeth i wasanaethau rheng flaen a all ddod yn rhy gostus yn sgil y pwysau economaidd y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu.

22 Mae cyflymdra’r newid mewn gwasanaethau oedolion wedi cynyddu gyda nifer o fentrau a nodwyd yn adroddiad y llynedd bellach yn dwyn ffrwyth. Cyflwynwyd model gweithredu diwygiedig er mwyn helpu pobl i aros mor annibynnol â phosibl, tra’n sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae gwaith yn ymwneud ag ailalluogi a mynediad cyntaf wedi datblygu. Mae cynlluniau tymor hwy ar waith i aildendro gwasanaethau gofal yn y cartref, adolygu contractau â’r sector gwirfoddol ac ystyried dyfodol yr holl ddarpariaeth uniongyrchol fewnol er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerth am arian, tra’n diwallu anghenion newidiol y dinasyddion.

23 Gwnaed cynnydd mewn gwasanaethau plant mewn nifer o feysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant yn y gwerthusiad blaenorol; fodd bynnag mae angen rhoi sylw i rai meysydd o hyd. Nododd arolygiad diweddar dystiolaeth o’r gwerth cadarnhaol y gall gwasanaethau ataliol ei ddwyn i blant a theuluoedd. Ceir enghreifftiau o arfer gwaith achos da yn ogystal â threfniadau da ag asiantaethau statudol a gwirfoddol. Mae’r strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau plant bellach ar waith. Fodd bynnag, prin yw’r cynnydd a wnaed mewn perthynas â rhai materion gweithlu a nodwyd fel meysydd sy’n peri pryder ers sawl blwyddyn. Nid aed i’r afael â’r rhain yn foddhaol eto.

24 Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor ym maes gwaith amddiffyn plant (o ran trefnu cynadleddau a chyfarfodydd grŵp craidd) yn unol â chynghorau tebyg. Eto i gyd, cafwyd nifer o achosion lle na chafodd plant ar y gofrestr amddiffyn plant eu cofnodi fel rhai â gweithiwr cymdeithasol dynodedig. Mae hyn yn peri pryder mawr. Yn yr un modd, dim ond tua 70 y cant o blant sy’n derbyn gofal a gafodd weithiwr cymdeithasol, sydd llawer yn is nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru.

25 Nododd yr AGGCC y risgiau posibl canlynol o fewn y Cyngor:

- gallu’r Cyngor i reoli gwasanaethau rheng flaen o fewn y gyllideb yn enwedig o gofio’r nifer fawr o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn y system derbyn gofal;
- gallu’r Cyngor i barhau i gynnig cymorth i bobl ar bob lefel o feini prawf cymhwysedd o ystyried lefel y galw am wasanaethau;
- achosion lle na chafodd plant ar y gofrestr amddiffyn plant weithiwr cymdeithasol; a
- phlant sy’n derbyn gofal ddim yn cael cymorth gweithiwr cymdeithasol.

26 Gwnaeth yr AGGCC hefyd nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- diwrnodau gwerthfawrogi plant lle gall grwpiau o frodyr a chwiorydd sydd wedi'u mabwysiadu rannu eu hanes fel teulu;
- Gwobrau Gofal Cymdeithasol sy'n ymwneud â hyfforddiant arloesol a chodi ymwybyddiaeth am effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn gwasanaethau plant;
- Prosiect Pili Pala mewn partneriaeth â Dementia Care Matters i wella ansawdd darpariaeth cartrefi gofal preswyl dementia fewnol; a
- gwaith parhaus â gofalwyr o ran cyfrannu at y gwaith o lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

## Mae perfformiad ym maes ailgylchu yn gwella ond mae angen cyflymu'r cynnydd a wneir yn sylweddol fel bod y Cyngor yn cyflawni targedau cenedlaethol

27 Nododd y Cyngor lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a chynyddu cyfraddau ailgylchu fel blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2012-13. Fodd bynnag, er bod perfformiad wedi gwella mewn blynyddoedd diweddar, erys yn sylweddol is na'r targed cenedlaethol i ailgylchu 52 y cant o wastraff erbyn 2012-13. Dim ond 46.2 y cant o'i wastraff a ailgylchwyd gan y Cyngor yn 2012-13, sef y perfformiad gwaethaf yng Nghymru.

28 Yn fwy cadarnhaol, mae nifer y tunelli sy'n mynd i safleoedd tirlenwi wedi lleihau'n raddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2012-13, anfonodd y Cyngor 38.2 y cant o wastraff trefol i safleoedd tirlenwi, 5 y cant yn llai na'r flwyddyn gynt a llai na'r rhan fwyaf o gynghorau eraill yng Nghymru (5ed o 22). Fodd bynnag, nid yw'n glir, o ystyried y duedd gadarnhaol hon, pam bod y Cyngor wedi gosod targed i'w hun i anfon cymaint â 48 y cant o'i wastraff i safleoedd tirlenwi yn 2013-14. Byddai hyn yn gyfystyr â pherfformiad yn y chwartel gwaelod o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, mae targedau clir ar waith i wella perfformiad ailgylchu 3 phwynt canran bob blwyddyn, sy'n gyson â'r angen i'r Cyngor gyflawni'r targed cenedlaethol o 58 y cant erbyn 2015-16. Gallai unrhyw fethiant i gyflawni'r targed hwn weld y Cyngor yn wynebu cosbau ariannol sylweddol.

29 Mae'r Cyngor yn deall y rhesymau dros ei berfformiad ailgylchu gwael hyd yn hyn ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hwy. Mae cyfraddau ailgylchu sych yn dda ar y cyfan ac yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru. Fodd bynnag, mae cyfraddau cyfranogi isel mewn ailgylchu gwyrdd/compostio yn dal i fod yn her allweddol i'r Cyngor, yn enwedig gan fod yr ardal wedi'i nodweddu gan dai teras â gerddi bach a llethrau serth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati'n systemataidd i ystyried effaith daearyddiaeth leol ar gyfraddau cyfranogi, a dilysu hyn drwy ymchwil empiraidd, adborth trigolion neu feincnodi wedi'i dargedu ag ardaloedd eraill â nodweddion tebyg. Mae gweithgareddau drws i ddrws diweddar, darparu cyngor a gwaith dilynol - sydd wedi targedu ardaloedd

preswyl â chyfraddau cyfranogi isel o ran ailgylchu bwyd - wedi esgor ar ganlyniadau addawol ac mae'r Cyngor yn bwriadu ymestyn hyn i ailgylchu gwyrdd yn y dyfodol.

30 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i helpu dinasyddion i ailgylchu mwy. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau codi ymwybyddiaeth ac addysg yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion, fideos hyrwyddol, sioeau teithiol, gwobrau lleol a pheth gwaith arloesol gydag Academi Pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynllun ailgylchu gwisg ysgol ac esgidiau chwaraeon ac mae wedi uwchraddio ei safleoedd amwynderau dinesig blaenorol i fod yn Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol (CACau), gan ganolbwyntio ar ailgylchu o'r newydd. Erbyn hyn caiff ailgylchu sych a gwastraff bwyd eu casglu wrth ymyl y ffordd bob wythnos ymhob ardal breswyl, ynghyd â chasgliadau gwyrdd bob pythefnos. Mae casglu gwastraff bwyd hefyd wedi'i ymestyn i bob ysgol gynradd ac ysgol iau. Tan yn ddiweddar, roedd gwastraff gweddilliol (bagiau du) hefyd yn cael ei gasglu bob wythnos. Disgwylir i'r cam o gyflwyno casglu bagiau du bob pythefnos, ynghyd â gwasanaeth casglu cewynnod untro, gael effaith amlwg ar berfformiad ailgylchu yn y dyfodol. Mae'r pum CAC bresennol mewn lleoliadau da o ran y prif ganolfannau poblogaeth a bydd chweched CAC yn agor yn Nyffryn Taf yn y dyfodol agos. Mae hyn yn golygu na fydd angen i unrhyw drigolion deithio mwy nag wyth milltir i ailgylchu nwyddau nas cesglir wrth ymyl y ffordd.

31 Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chynghorau Merthyr Tudful a Chasnewydd, er enghraifft drwy gaffael safle prosesu bwyd newydd a safle trin gwastraff gweddilliol ar y cyd a wnaiff gyfrannu at arbed costau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn dda am gael gafael ar gyllid allanol, ond erys pwysau cyllidebol ac mae lle i herio costau'r gwasanaeth mewn ffordd fwy systemataidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i hyrwyddo gweithgareddau lleihau gwastraff ac ymdrin â gwastraff masnachol mewn ffordd fwy costeffeithiol. Mae nifer o fentrau newydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd neu maent yn yr arfaeth ond nid ydynt wedi'u dwyn ynghyd eto ar ffurf map llwybr er mwyn dangos sut y bydd y Cyngor yn gwella ei berfformiad ac yn rhannu ei uchelgeisiau â dinasyddion a rhanddeiliaid eraill.

32 Credwn fod lle i weithredu prosesau craffu a herio mwy effeithiol mewn perthynas â pherfformiad rheoli gwastraff a gwaith datblygu polisi'r Cyngor. Ar hyn o bryd, caiff y pwyllgor craffu adroddiadau chwarterol ar berfformiad fel 'eithriad' o ran targedau a bennir yn lleol. Prin yw'r dystiolaeth o herio'r sefyllfa barhaus lle mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn cymharu'n ffafriol â thargedau cenedlaethol a'r hyn a gyflawnir gan gynghorau eraill yng Nghymru. Mae gwaith craffu yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion gweithredol, gan eithrio blaengraffu ar fentrau newydd, gwaith llunio polisi neu newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau cyn eu cyflwyno. Gellid hefyd gyflwyno gwaith meincnodi a dysgu a rennir mwy effeithiol drwy weithio gyda chynghorau â nodweddion daearyddol-gymdeithasol tebyg, o fewn Cymru ac yn ehangach ledled y DU.

## Mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod yr angen am ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei ystyried yn briodol ar y cam cynllunio gwasanaethau

33 Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

34 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

35 Ar gyfer 2012-13, nododd y Comisiynydd fod y Cyngor yn parhau i gynnal arolygon monitro blynyddol, gyda lefel uchel o gyfranogi ymhlith rheolwyr cynllun busnes. Roedd hyn yn ategu'r gwaith a wneir i gyfarfod â rheolwyr er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys ar y cam cynllunio gwasanaethau. Roedd yr arolwg yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn rhai meysydd tra bod angen gwella eraill. Gwelwyd mwy o ddatblygiadau o ran gwasanaethau electronig y Cyngor a byddai defnydd y Cyngor o rwydweithiau cymdeithasol ac elfennau rhyngweithiol o'i wefan yn parhau i gael sylw. Nodwyd bod materion staffio yn dal i fod yn flaenoriaeth. Roedd angen i'r Cyngor ystyried lefel a dosbarthiad sgiliau Cymraeg y gweithlu a darpariaeth hyfforddiant iaith, unwaith y byddai ei strwythur yn dod yn sefydlog yn sgil y newidiadau. Nododd y Comisiynydd fod y Cyngor hefyd yn ystyried ehangu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg i gynnwys cyrsiau proffesiynol a galwedigaethol.

# Mae prosesau craffu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn gwella er bod lle i werthuso'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella yn well

## Mae Adroddiad Cyflawni Blynyddol y Cyngor yn darparu asesiad teg a chytbwys o berfformiad er y gallai'r Cyngor wneud mwy i werthuso'r cynnydd a wneir ganddo yn erbyn ei flaenoriaethau gwella

36 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2012-13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013 yn unol â gofynion statudol. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb o'i Adroddiad. Mae'r fersiwn llawn a chrynodeb dwyieithog ar gael ar wefan y Cyngor ac mae copi o'r crynodeb wedi'i roi i bob cartref yng nghylchgrawn *Rhagolygon y Cyngor*.

37 Mae'r Adroddiad a'r crynodeb yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad. Cwmpesir llwyddiannau a pherfformiad gwannach. Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol er bod lle i gyfleu'n gliriach yr hyn y mae'r wybodaeth hon yn ei olygu a'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ei sgil. Mae'r Cyngor yn creu sail dystiolaeth fwy cynhwysfawr sy'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr, a barn rheoleiddwyr allanol, yn ogystal â chyfres gynyddol o fesurau perfformiad wedi'u teilwra. Yn Adroddiad eleni, caiff mesurau perfformiad perthnasol ar gyfer pob blaenoriaeth wella eu hintegreiddio'n well â'r testun, gan roi syniad mwy uniongyrchol o'r cynnydd a wneir gan y Cyngor. Rhydd crynodeb eleni ddarlun mwy cynhwysfawr a hygyrch o berfformiad na'r llynedd.

38 Gallai'r Cyngor wneud mwy i lunio casgliadau o'i adroddiadau manwl ac, yn hunanfeirniadol, werthuso'r cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn ei flaenoriaethau gwella. Rydym wedi nodi, ac wedi rhannu â swyddogion, gyfleoedd i'r Cyngor wella ei adroddiadau ar gynnydd er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau hunanwerthuso.

## Mae'r Cyngor wedi achub ar gyfleoedd i ddatblygu rôl ac effeithiolrwydd aelodau ymhellach wrth graffu ar ei waith cynllunio gwelliant a'i berfformiad, er mai megis dechrau yw'r broses o weithredu'r trefniadau newydd hyn

39 Chwaraeodd y Cyngor ran gadarnhaol ym mhrosiect cenedlaethol y Gyfnewidfa Dysgu Craffu ac mae wedi gwneud newidiadau i'w drefniadau craffu o ganlyniad i hynny. Mae wedi datblygu ymhellach ei gysylltiadau â Chyngor Sir Caerfyrddin, gan rannu arfer a phrofiad ym maes craffu er mwyn gwella effeithiolrwydd y broses graffu o fewn y Cyngor.

40 Gwnaethom gyflawni gwaith eleni yn edrych yn benodol ar faterion cyfansoddiadol ac ymgysylltu aelodau. Nododd y gwaith hwn gyfleoedd pellach i ddatblygu ac ymgorffori arferion caffael y mae'r Cyngor yn eu datblygu. Er enghraifft, wrth sicrhau amseroldeb eitemau i'w hadrodd i'r pwyllgor craffu a gwella'r broses o werthuso effeithiolrwydd ac effaith trefniadau craffu.

41 Creffir ar feysydd newydd, er enghraifft, chwarae rôl yn nhrefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant y Cyngor. Am y tro cyntaf, gwnaeth aelodau craffu gynnig her a chipolwg ar gynnwys yr Adroddiad Cyflawni Blynyddol a baratowyd gan swyddogion cyn ei gyhoeddi ym mis Hydref 2013. Creffir ymhellach ar y Cynllun Corfforaethol drafft a chynlluniau gweithredu blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer 2014-15.

42 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod, gan gyflawni rôl hwyluso er mwyn cefnogi hunanddysgu a gwerthuso mewn perthynas â'r trefniadau newydd hyn.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

43 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar 30 Medi 2013, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Erys trefniadau cynllunio ariannol strategol y Cyngor yn gadarn ond mae angen gwella'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â dinasyddion ynghylch graddau uchelgeisiau gwella'r Cyngor ac effaith newidiadau i wasanaethau yn ei feysydd â blaenoriaeth

### Er bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol, ni chaiff ei uchelgeisiau o ran gwelliant eu cyfleu'n ddigon clir, ni all ddibynnu ar ansawdd na chywirdeb rhai o'i fesurau perfformiad ac nid yw ei gynlluniau cyhoeddus yn hwyluso ymgysylltu effeithiol â dinasyddion

44 Yn ein hasesiad o amcanion gwella'r Cyngor (sef y blaenoriaethau) a'i gynllun gwella blynyddol (sef *Cynllun Corfforaethol 2013/14-2015/16* (y Cynllun), daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond y dylai wneud mwy yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

45 Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun ym mis Mehefin 2013, gan nodi ei saith blaenoriaeth ar gyfer gwella dros y tair blynedd nesaf. Mae gan y Cynllun strwythur clir ac mae'n defnyddio iaith syml i amlinellu blaenoriaethau gwella'r Cyngor a'r manylion cysylltiedig. Mae'r Cynllun yn egluro'r rhesymeg dros eu dethol, y canlyniadau y gall y gymuned eu disgwyl os y'u cyflawnir a'r wybodaeth a ddefnyddir i fesur llwyddiant. Mae hefyd yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd, gan gynnwys camau gwella hanfodol, cerrig milltir a mesurau perfformiad. Cafodd crynodeb byr o'r Cynllun ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013 ac yn rhifyn Medi 2013 o Rhagolygon a ddosberthir i bob cartref.

46 Mae'r Cyngor o'r farn mai dogfen dechnegol o ddiddordeb cyfyngedig i'r cyhoedd yw'r Cynllun. Fodd bynnag, nid yw'r crynodeb dwy dudalen yn cynnwys digon o wybodaeth i roi darlun teg a chytbwys i'r darllenwr cyffredin o flaenoriaethau gwella'r Cyngor na sut y bwriedir i'r rhain wella canlyniadau i ddinasyddion. Os yw am gyd-fynd yn fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae angen i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb cytbwys sy'n hwyluso ymgysylltu ehangach â'r rhai a wasanaethir ganddo ac sy'n annog deialog ar ei flaenoriaethau a chynnydd tuag at eu cyflawni.

47 Hefyd mae angen i'r Cyngor gyfleu'n gliriach raddau ei uchelgeisiau gwella o fewn y Cynllun. Lle mae'r Cyngor yn defnyddio dangosyddion perfformiad (boed yn statudol neu'n lleol) fel mesurau o lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella, mae angen data perfformiad llinell sylfaen a data perfformiad wedi'u targedu er mwyn mynegi graddau'r gwelliant a gynllunnir a sicrhau bod gwaith monitro a gwerthuso perfformiad yn effeithiol. Yn fersiwn cyfredol y Cynllun, nid yw'r data angenrheidiol hyn wedi'u cynnwys mewn cyfran sylweddol o'r mesurau o lwyddiant. Lle gosodir targedau, mewn rhai achosion nid oes unrhyw resymeg cysylltiedig o ran faint o lwyddiant yr anelir ato, sy'n ei gwneud hi'n anodd deall graddau uchelgeisiau gwella'r Cyngor yng nghyd-destun yr heriau y mae'n eu hwynebu; mae hyn yn hynod bwysig lle mae targedau'r dyfodol yn cyfateb i gynnal neu leihau perfformiad dros amser.

48 Er mwyn sicrhau bod gwaith rheoli perfformiad yn effeithiol wrth lywio gwelliant ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor, mae'n hanfodol bod modd dibynnu ar ansawdd a chywirdeb data perfformiad. Mae ein gwaith dros sawl blwyddyn wedi rhoi sicrwydd y gellir cael dibyniaeth briodol mewn perthynas â'r dangosyddion statudol cenedlaethol a ddefnyddir gan y Cyngor. O ystyried bod y Cyngor hefyd wedi datblygu amrywiaeth o fesurau perfformiad lleol, eleni gwnaethom gynnal adolygiad ansawdd data o sampl o'r mesurau hynny o fewn cynllun gweithredu blaenoriaeth Cynnal Annibyniaeth Pobl (2013-14). Nododd ein harchwiliad faterion a oedd yn cyfyngu ar gywirdeb ac ansawdd y mesurau lleol hyn. Mewn nifer o achosion, nid oedd y diffiniadau o fesurau yn cyd-fynd â'r data a oedd yn cael eu casglu mewn gwirionedd, a/neu roedd y mesurau a oedd yn cael eu monitro yn gyfyngedig o ran eu perthnasedd i'r canlyniadau roedd y gwasanaeth yn ceisio eu cyflawni.

49 Mae'r tîm perfformiad corfforaethol yn gweithio gyda'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn ac mae wedi comisiynu adolygiad archwilio mewnol ehangach ar draws ei holl feysydd â blaenoriaeth er mwyn pennu a yw'r broses casglu data yn gadarn. Cyflwynodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ganlyniadau ei archwiliad o 28 o ddangosyddion perfformiad lleol eraill (a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gefnogi ei *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2012-13*) ym mis Medi 2012. Cadarnhaodd ei waith fod y materion a nodwyd gennym yn ein sampl llai yn bodoli'n ehangach ymhlith y mesurau perfformiad lleol a ddefnyddiwyd gan y Cyngor. Nododd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol nad oedd yn gweld unrhyw brosesau sicrhau ansawdd systematig ar waith ac, o blith y 28 o ddangosyddion perfformiad lleol a adolygwyd:

- nid oedd 23 (82 y cant) wedi'u diffinio'n glir o ran eu ffynhonnell ddata a/neu ddull cyfrifyddu;
- nid oedd gan wyth (29 y cant) unrhyw dystiolaeth gywir i gefnogi'r ffigurau a gofnodwyd; ac
- nid oedd gan 11 (39 y cant) unrhyw darged ar gyfer lefel y perfformiad y bwriadwyd ei chyflawni.

50 Mae adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, sy'n cynnwys argymhellion priodol ar gyfer gweithredu, wedi'i drafod â swyddogion ac wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn a'u datrys wrth ddrafftio ei Gynllun Corfforaethol newydd a'i gynlluniau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer 2014-15, ac mae wedi briffio aelodau craffu i roi sylw arbennig iddynt.

51 Byddwn yn adolygu cynnydd y Cyngor o ran gwella ansawdd a chywirdeb ei ddata perfformiad lleol, ac yn ceisio ymgysylltu'n ehangach ar ei gynlluniau gwella gyda dinasyddion yn ein cylch nesaf o asesu gwaith gwella.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

52 Mae gan y Cyngor hanes da o ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion ar gyfer gwella mewn asesiadau blaenorol. Cydnabyddir yr angen i ganolbwyntio gwaith cynllunio gwella yn well ar gyfer dinasyddion a datblygu mesurau llwyddiant mwy perthnasol a chywir, a chaiff trefniadau herio mewnol, gan gynnwys archwilio a chraffu mewnol, eu defnyddio i wella effeithiolrwydd gwaith cynllunio gwella.

53 Mae'r Cyngor wedi ymateb i'n hawgrymiadau i wella ansawdd yr adrodd yn ei Adroddiad Cyflawni Blynyddol. Er enghraifft, drwy gynnwys sail dystiolaeth ehangach, adrodd ar wybodaeth am berfformiad mewn ffordd lai darniog, a chanolbwyntio fwyfwy ar y gwahaniaeth y mae camau gweithredu'r Cyngor yn ei wneud i ddinasyddion. Yn ogystal, cyhoeddodd y Cyngor grynodeb mwy cynhwysfawr a hygyrch o'i *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2012-13*.

54 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran ei drefniadau a'i berfformiad ym maes rheoli gwybodaeth a thechnoleg, gan gymryd camau i fynd i'r afael â'r holl gynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn ein hadroddiadau diweddar.

55 Mae'r Cyngor wedi cytuno ar *Strategaeth Rheoli Risg* newydd ac wedi datblygu *Pecyn Cymorth Rheoli Risg* er mwyn cefnogi ei weithrediad. Bydd y pecyn cymorth hwn yn helpu rheolwyr i nodi a lliniaru risgiau gweithredol yn ystod 20134-15. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi a dogfennu'r risgiau strategol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r Cyngor a chyhoeddi adroddiadau ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu eu lliniaru.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau cadarn i gyflawni effeithlonrwydd a lleihau ei gyllideb sylfaenol ond mae'n wynebu her ariannol nas gwelwyd o'r blaen yn y tymor canolig

56 Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd o ran ei gyllid drwy fframwaith rheoli ariannol effeithiol. Mae wedi cynnal trefniadau rheoli ariannol cadarn yn ystod y flwyddyn ac yn y tymor canolig sydd wedi esgor ar gyllideb refeniw wedi'i mantoli ar gyfer 2013-14 tra'n cynnal lefel ddarbodus o falansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Yng nghyd-destun yr angen am drefniadau rheoli ariannol cryf parhaus, mae Swyddog Adran 151 o'r farn y dylai'r Cyngor barhau i weithredu gydag o leiaf £10 miliwn o falansau cronfeydd cyffredinol. O ystyried y caledi ariannol a'r cyfyngiadau a welir ar hyn o bryd, ystyrir bod y lefel ofynnol hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal sefydlogrwydd a hyblygrwydd ariannol wrth symud ymlaen.

57 Yn dilyn setliad llywodraeth leol 2014-15 (a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2013), nododd y Cyngor ddiffyg ariannol ar gyfer 2014-15 o £15.2 miliwn, sy'n fwlch a wnaiff dyfu dros bedair blynedd i swm amcangyfrifedig o £64 miliwn os nad yw'r Cyngor yn lleihau ei gyllideb sylfaenol.

58 Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb wedi'i mantoli ar gyfer 2014-15 ar 26 Chwefror 2014. Ar ôl pennu cynnydd yn y dreth gyngor o 4.5 y cant, aeth i'r afael â'r diffyg ariannol a oedd yn weddill o £14.4 miliwn drwy gyfuniad o fesurau gan gynnwys:

- cyfres o arbedion effeithlonrwydd gwerth £4 miliwn (heb gynnwys ysgolion, ac i'w cyflawni heb dorri gwasanaethau rheng flaen na chyflwyno diswyddiadau gorfodol);
- cyflwyno toriadau i wasanaethau a thâl am wasanaethau yn raddol a fydd yn lleihau'r gyllideb £5.2 miliwn ar gyfer 2014-15; a
- chyllid trosiannol o £5.2 miliwn gan ddefnyddio *Cronfa wrth Gefn Trawsnewid Gwasanaethau a Chynllunio Tymor Canolig*[1] y Cyngor.

59 O ystyried maint y bwlch ariannol a wynebir ganddo, a'r rhagolygon ariannol yn y tymor canolig, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad sylfaenol o'i holl wasanaethau. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi sylw gofalus a thrwyadl i gyflwyno toriadau/newidiadau i wasanaethau, ynghyd â chynnydd mewn taliadau am wasanaethau fel bod y Cyngor yn cyflawni cyllideb gynaliadwy yn y byrdymor i'r tymor canolig.

60 Ar hyn o bryd, ceir dwy haen o gynigion i leihau'r gyllideb sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cynhwysfawr â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid eraill â diddordeb, ac sydd ar wahanol gamau o ran eu hystyried. Mae'r Cyngor wedi profi ei gynigion yn erbyn yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- mae gwasanaethau mor deg â phosibl ar draws Rhondda Cynon Taf;
- bydd y cynigion yn arwain at lefel resymol o wasanaeth yn parhau;
- bydd gwasanaethau yn aros yn gynaliadwy yn y tymor canolig (tair i bum mlynedd);
- bydd gwasanaethau, cyhyd â phosibl, yn well neu gystal â gweddill Cymru yn gyffredinol; a
- bydd gwasanaethau yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol.

61 Wrth ymgynghori ar ei gynigion i leihau'r gyllideb, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod pawb y gallai'r newidiadau i wasanaethau effeithio arnynt yn gallu dweud eu dweud. O ganlyniad i natur y cynigion i leihau'r gyllideb, sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion, bu'r adborth yn gynhwysfawr, ac mae wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau.

1 Cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi gwerth £10 miliwn ar 31 Mawrth 2014. Cafodd y gronfa wrth gefn hon ei sefydlu gan y Cyngor er mwyn cefnogi cyllid trosiannol fel rhan o'i drefniadau cynllunio gwasanaeth tymor canolig, hynny yw, helpu i hwyluso'r broses o gyflawni arbedion cyllidebol dros nifer o flynyddoedd, tra'n parhau i allu cyflawni cyllideb wedi'i mantoli. Dim ond fel ateb byrdymor y gall cyllid trosiannol o'r fath gael ei ystyried tra bod toriadau/newidiadau parhaol i a/neu newidiadau i wasanaethau a gyflwynir er mwyn lleihau'r gyllideb sylfaenol yn yr arfaeth.

62 Ar y cyfan, cydnabu ymatebwyr bod angen newid gwasanaethau ac adolygu'r holl wasanaethau sy'n bodoli eisoes, o'u gweld yng nghyd-destun yr arbedion cyllidebol y mae angen i'r Cyngor eu gwneud. Nododd 85 y cant o ymatebwyr eu bod yn deall pam bod angen i'r Cyngor leihau gwasanaethau. Roedd 79 y cant o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor fod yn adolygu'r holl wasanaethau a'r ffordd y'u darperir a bod y camau i'w cymryd yn rhesymol. Fodd bynnag, yn naturiol ddigon, mynegodd nifer o ymatebwyr unigol a phartïon â diddordeb bryderon ac nid oeddent yn gallu cytuno â'r cynigion penodol yn bendant.

63 Cafodd yr adborth o'r ymgynghoriad ei ddwyn ynghyd yn gynhwysfawr ac yn ddiduedd a'i gyflwyno i'r Cabinet er mwyn helpu i wneud penderfyniad. Yn dilyn hynny mae cynigion Cam 1 wedi cael eu cymeradwyo gan y Cabinet i'w gweithredu a byddant yn arbed £7.6 miliwn dros flwyddyn gyfan (£5.2 miliwn fydd yr arbediad blwyddyn rannol ar gyfer 2014-15). Pennwyd cynigion Cam 2 gan y Cabinet ar 14 Mai 2014 ac, yn amodol ar ohirio'r cynnig yn ymwneud â gwasanaethau hamdden ar gyfer adolygiad manwl arall, fe'u cymeradwywyd i'w gweithredu. Bydd y cynigion Cam 2 cymeradwy hyn yn esgor ar £2.8 miliwn arall o arbedion dros flwyddyn gyfan i'r Cyngor.

64 O ystyried maint y bwlch yn y gyllideb y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei wynebu yn y tymor canolig, bydd angen datblygu mwy o gynigion ac ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniad. Wrth symud ymlaen, bydd angen i'r Cyngor ddangos ei fod wedi gwerthuso effaith ei newidiadau i wasanaethau ar feysydd blaenoriaethau gwella, ac wedi adlewyrchu hyn yn briodol yn ei gynlluniau gwella a'i adroddiadau i ddinasyddion.

65 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

66 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'.  Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.  Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Rondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £581 miliwn y flwyddyn (2012-13).  Mae hyn yn cyfateb i tua £2,480 fesul trigolyn.  Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £81.4 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Rhondda Cynon Taf oedd £1,340.07 y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o 2.83 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 90 y cant o dai Rhondda Cynon Taf yn y bandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- Un aelod o Geidwadwyr Cymru
- Un aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 4 aelod Annibynnol
- 9 aelod o Blaid Cymru
- 60 aelod o Blaid Lafur Cymru

Yn 2012-13, Keith Griffiths oedd Prif Weithredwr y Cyngor. Y cyfarwyddwyr corfforaethol oedd:

- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a Phlant, Mr Ellis Williams
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Steve Merritt
- Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Mr Christopher Bradshaw
- Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol, Mr George Jones
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a hefyd Swyddog Monitro'r Cyngor, Mr Paul Lucas
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Mr Anthony Wilkins

## Gwybodaeth arall

Yr Aelodau Cynulliad ar gyfer Rhondda Cynon Taf yw:

- Christine Chapman, Cwm Cynon, y Blaid Lafur
- Leighton Andrews, y Rhondda, y Blaid Lafur
- Mick Antoniw, Pontypridd, y Blaid Lafur
- Eluned Parrott, Leanne Wood, David Melding, Andrew R T Davies, Aelodau Rhanbarthol

Yr Aelodau Seneddol dros Rondda Cynon Taf yw:

- Ann Clwyd, y Blaid Lafur
- Chris Bryant, y Blaid Lafur
- Owen Smith, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.rctcbc.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Pencadlys, y Pafiliwn, Parc Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX. Ffôn: 01443 425005.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Keith Griffiths, Prif Weithredwr
Y Cynghorydd Anthony Christopher, Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfeydd y Cyngor
Y Pafiliwn
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

Annwyl Keith ac Anthony

## Llythyr Archwilio Blynyddol 2012-13

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod  ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a’r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi’i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.  Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o’r archwiliad o gyfrifon i aelodau o’r Cyngor yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2013.

Nodwyd gennym ein bod wedi gwneud nifer fach o newidiadau i’r Datganiad o’r Cyfrifon drafft ac nad oedd unrhyw un ohonynt yn berthnasol. Gwnaethom hefyd nodi bod y cyfrifon drafft o ansawdd da.

Rydym hefyd wedi trefnu sesiwn ddysgu ôl-prosiect gyda staff cyllid er mwyn achub ar y cyfleoedd i wella wrth ddilyn proses cynhyrchu ac archwilio cyfrifon terfynol y flwyddyn nesaf.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi’i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy’n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi’u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ran y dyfodol, bydd y setliad cyllidebol dros dro diweddar gan Lywodraeth Cymru yn golygu y bydd pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol heriol iawn. Mae’r Cyngor wedi nodi bwlch ariannol o £56 miliwn o leiaf dros y pedair blynedd nesaf ac mae wrthi’n diweddaru ei Gynllun Gwasanaeth Tymor Canolig ac yn nodi’r arbedion effeithlonrwydd a’r toriadau posibl sydd eu hangen i gau’r bwlch. Mae hyn yn her sylweddol i’r Cyngor a byddwn yn parhau i adolygu’r cynnydd a wneir.

Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio’r cyfrifon wedi cael ei orffen oherwydd mae un mater yn weddill gan etholwr, ond disgwyliaf allu gwneud hynny cyn diwedd y flwyddyn.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â’r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol.



John Herniman

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2013

cc  Steve Merritt, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.rhondda-cynon-taf.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 | Blaenoriaethau gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|---|
| **Addysg**<br>Addysg o'r radd flaenaf i bawb | **Addysg**<br>Addysg o'r radd flaenaf i bawb |
| **Gwasanaethau Gofal Stryd a'r Amgylchedd Naturiol**<br>Bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach | **Gwasanaethau Gofal Stryd a'r Amgylchedd Naturiol**<br>Bwrdeistref sirol lanach a gwyrddach |
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Cadw'r holl blant a phobl ifanc yn ddiogel a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed | **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Cadw'r holl blant a phobl ifanc yn ddiogel a gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed |
| **Cynnal Annibyniaeth Pobl**<br>Cefnogi oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol | **Cynnal Annibyniaeth Pobl**<br>Cefnogi oedolion a phobl hŷn i fyw'n annibynnol |
| **Gorfodi a Rheoleiddio**<br>Diogelu pobl rhag niwed a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | **Iechyd cyhoeddus ac amddiffyn y cyhoedd**<br>Diogelu pobl rhag niwed a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| **Adfywio ein Cymunedau**<br>Adfywio ffisegol a chymdeithasol | **Adfywio ein Cymunedau**<br>Adfywio ffisegol a chymdeithasol |
| **Cynllunio Ariannol Tymor Canolig**<br>Cyflawni o fewn ein hadnoddau | **Cynllunio Ariannol Tymor Canolig**<br>Cyflawni o fewn ein hadnoddau |
| **Gwell Cyswllt Cwsmeriaid**<br>Rhoi cwsmeriaid yn gyntaf | |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2012-13* sydd ar gael ar wefan y Cyngor: www.rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk